# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 19EG HYDREF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 11 Hydref 2021)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Eryl Jones-Williams
Gethin Glyn Williams

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Cynghorydd Matthew Harris | Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Merioneth |
| John Johnson | Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Cynghorydd Brain Wooley | Cyngor Cymuned Arthog |
| Ian Sadler | Pwyllgor Ras y Tri Copa |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. COFNODION** 4 - 8

a) Cadarnhau cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain Mawrth 2021 fel rhai cywir

b) Materion yn codi

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 24

I ystyried yr adroddiadau

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau

**6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nodi bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal 22ain Mawrth 2022

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 23/03/21

**Presenoldeb:**

**Aelodau:**

Cynghorydd Gethin Glyn Williams, Cynghorydd Eryl Jones-Williams, Cynghorydd Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cynghorydd Matthew Harris (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Wendy Ponsford (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mark James (Cymdeithas y Bad Achub) ac Ian Sadler (Pwyllgor Ras y Tri Copa)

**Swyddogion:**

Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Bergitte Evans (Cymhorthydd Harbwr Abermaw) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**

Steve Richardson (Griffiths Engineering)
Rob Williams (Rheolwr Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd – Ymgymghoriaeth Gwynedd Consultancy - YGC)
Osian Gruffydd Richards (Uwch Beiriannydd Technegol – YGC)
Peter Appleton (Pwyllgor Ras y Tri Copa - arsylwi)

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Cynghorydd Louise Hughes, Cynghorydd Brian Woolley (Cyngor Cymuned Arthog), Mr John Johnson (Cymdeithas Bysgota Abermaw a Bae Ceredigion) a Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain Hydref, 2019, fel rhai cywir yn amodol ar gywiro: 5 (ch) Cyfleuster penodol ar gyfer beiciau dwr - *'Adroddwyd nad oedd beiciau dwr yn dod ag unrhyw incwm i'r harbwr'* > 'bod beiciau dwr sydd wedi eu cofrestru yn dod ac incwm i'r harbwr' a 8 (a) Cynllun Datblygu Harbwr Abermaw - *'Amlygwyd dymuniad i lunio cynllun datblygu'* > 'Amlygwyd yr angen i lunio cynllun datblygu'

Materion yn codi o'r cofnodion;

- Grŵp Tasg Cynllun Datblygu Harbwr Abermaw
  Amlygwyd nad oedd gwaith wedi symud yn ei flaen gyda hyn oherwydd bod pob dim 'datblygol' wedi cael ei roi i un ochr yn sgil argyfwng covid 19. Ategwyd bod blaenoriaeth yn cael ei roi ar ail agor y tymor ymweld. **Awgrymwyd i'r Rheolwr Morwrol holi Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ynglŷn â'r ffordd ymlaen.**

  Ategwyd mai ymarfer da oedd cynnal Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Pwllheli gan mai Pwyllgor Harbwr Porthmadog oedd yr unig gyfarfod statudol o ran gofynion deddfwriaeth. Nodwyd petai deddfwriaethau yn gorfodi cynlluniau datblygu harbwr, y bwriad fyddai ceisio sicrhau cysondeb ar draws y pedwar Harbwr (Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Pwllheli.) **Gwnaed cais i Swyddog Morwrol ymchwilio i ofynion y Ddeddf sy'n rhoi arweiniad bod cael cynllun dablygu harbwr yn hanfodol.**

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Croesawyd Brigitte Evans (Cymhorthydd Harbwr Abermaw) i'w chyfarfod cyntaf. Diolchwyd i'r swyddogion ac i staff yr harbwr am eu holl waith yn cynnal y gwasanaeth yn ystod blwyddyn eithriadol o anodd.

### (a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno ar faterion yr Harbwr am y cyfnod yn diweddu Mawrth 2021

**Angorfeydd**

Adroddwyd bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr angorfeydd o ganlyniad i gyfyngiadau yn gysylltiedig â covid 19. Nodwyd bod nifer o berchnogion cychod wedi dewis peidio defnyddio eu cychod yn 2020 - patrwm a welwyd yn gyffredinol ar draws Harbyrau Gwynedd.

**Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chydymffurfio gyda'r cod ac os oedd hyn yn rhywbeth anodd ei weithredu, nodwyd mai'r agweddau diogelwch oedd y prif heriau ynghyd a chynnal asesiadau risg ac archwiliad allanol. Ategwyd bod y broses o 'adeiladu'r' cod yn un oedd yn datblygu yn raddol. Adroddwyd y byddai llythyr y cael ei anfon gan y Gwasanaeth i'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chawelli pysgotwyr yn cael eu gadael ar yr harbwr, nodwyd mai trefniant dros dro yn unig ydoedd ac fel bydd y tymor pysgota yn agosáu bydd y cawelli yn cael eu hail leoli.

**Materion Staffio**

Adroddwyd bod amryw o newidiadau staffio wedi digwydd yn ystod y flwyddyn gyda Mr Glyn Jones yr Harbwrfeistr wedi gadael i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Amlygwyd bod Bergitte Evans a Jordan Hewlett wedi eu penodi i gyflawni dyletswyddau yr Harbwr a'u bod yn parhau i gael eu hyfforddi a'u datblygu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adnoddau digonol i ymdopi gydag ymwelwyr i'r ardal yn ystod yr Haf, nodwyd bod yr Aelod Cabinet wedi amlygu pryder o'r sefyllfa

a'r mater wedi ei drafod yn y Grŵp Twristiaid, o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Uned Forwrol, a chynllun effeithiol ar gyfer y gwaith wedi ei gytuno, awgrymwyd y byddai'r lefel staffio yn ddigonol ar gyfer yr Harbwr a'r traeth. Bydd staff o adrannau eraill hefyd ar gael i reoli materion yn y dref.

**Materion Ariannol**

Cyflwynwyd cyllideb yr harbwr i amlygu'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Mawrth 2021. Amcangyfrifwyd gorwariant o £8,061.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyllid gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu lleihad mewn incwm, adroddwyd bod £4,500 wedi ei dderbyn ac wedi ei gynnwys yn y gyllideb. Nodwyd y byddai ffioedd angorfeydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant (2%) ond na fyddai cynnydd mewn ffioedd lansio, cofrestru ac ailgofrestru.

**Gwaith Atgyweirio Traphont Abermaw**

Cafwyd cyflwyniad gan Steve Richardson (Griffiths Engineering) ar y gwaith atgyweirio fydd yn cael ei wneud i draphont Abermaw dros y ddwy flynedd nesaf. Cyfeiriwyd at amserlen y gwaith oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad yr Harbwr Feistr.

Prif bwyntiau yn codi o'r drafodaeth:

- Ni fydd y bont yn agor – nid yw wedi cael ei ddylunio i agor
- Nid oes cynllun i godi lefel y tywod
- Ni fydd y gwaith yn cyfyngu defnydd o'r ardal mordwyo
- Bydd yr hen bren a'r hen haearn ar gael i artistiaid lleol
- Bydd maint y coed newydd yn rhy fawr ac felly bydd angen eu llifio i'r maint cywir – bydd y darnau 'gwastraff' ar gael am bris rhesymol gyda'r arian i'w gyfrannu at yr RNLI ac elusennau lleol eraill. **Awgrymiadau i'w cyfeirio at SR**
- Bydd rhai darnau o'r coed yn cael eu hail ddefnyddio i atgyweirio llwybrau
- Petai'r angen am waith atgyweirio i'r harbwr, mynegwyd bod adnoddau ar gael - y cwmni yn agored i drafodaethau
- Er y bwriad o agor siop safle i rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd, nid yw hyn wedi bod yn bosib o dan gyfyngiadau / canllawiau covid 19
- Bydd yr hen olwyn fecanyddol yn aros yn ei hunfan ac nid ar gael fel 'addurn' i'r gerddi - hwn yn benderfyniad gan CADW
- **Manylion Steve Richardson i'w dosbarthu i'r Aelodau**

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cymhorthydd Harbwr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol a chynnal a chadw. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Bod cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at Harbwr Abermaw wedi aros yn eithaf cyson dros y flwyddyn ddiwethaf. Er hynny, yn dilyn cais gan Dŷ'r Drindod i newid safle'r Bwi Fairway (marc dŵr diogel), i gyd-fynd yn well â'r sianel fordwyo sydd â bwiau rhoddwyd caniatâd i'w leoli ar safle 52° 42.815 N. 004° 04.887 W.
- Epidemig y Coronafeirws a chyfyngiadau cysylltiedig Llywodraeth Cymru, wedi cael effaith fawr ar weithrediad yr Harbwr yn ystod 2020.
- Er y caniatawyd i gychod pysgota barhau i weithredu drwy gydol y cyfnod, cafodd symudiadau twristiaeth a hamdden yn yr harbwr eu cyfyngu yn sylfaenol gyda llawer o berchnogion yn penderfynu gadael eu cychod ar y lan am y flwyddyn.

- Yn anterth tymor yr haf 2020 pan roedd rhai cyfyngiadau Coronafeirws wedi eu codi, daeth blaen yr harbwr yn le prysur iawn – nid oedd llawer o sylw yn cael ei roi i'r mesurau pellter cymdeithasol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, o ran y Coronafeirws gan ymwelwyr
- Cafodd angorfeydd ymwelwyr a leolir yn yr harbwr eu harchwiliad blynyddol a'u gwasanaethu yn 2020. Gwnaed hyn gan gontractwr allanol. Gyda symudiadau'r sianel y gellir ei mordwyo yn cael ei hadolygu, mae'n bosib iawn y bydd rhaid ail-leoli'r angorfeydd hyn ar gyfer y tymor a ddaw fel bod modd iddynt barhau i fod mewn dŵr dwfn.
- Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r gwaith o gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo wedi ei ymgymryd gan gontractwr allanol ar gost net i'r Gwasanaeth o £2600.
- Bod difrod wedi ei wneud i'r ddwy ysgol newydd a osodwyd ar wal yr harbwr y llynedd. Achoswyd y difrod gan gychod oedd wedi angori ger wal y cei. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio ymgymryd â gwaith i atgyweirio'r ysgolion ar y cyd gyda pherchnogion y cychod dan sylw ynghyd a cheisio adennill y costau gan berchnogion y cychod
- Mae ymsuddiant yn parhau o amgylch isadeiledd yr harbwr. Arweiniodd dymchweliad y wal fôr o dan Gerddi'r Traphont at osod cerrig amddiffyn yn y cyffiniau i atal difrod pellach. Mae ymsuddiant tir yr harbwr ger y rhesel dingis hefyd wedi gwaethygu. Mae YGC wedi cael gwybod am yr ymsuddiant - cynhaliwyd gwaith archwilio yn yr ardal i benderfynu ar y camau nesaf priodol.
- Yn dilyn proses o ymgynghori rhwng y Gwasanaeth a rhan-ddeiliaid yr harbwr, paratowyd adroddiad a'i gyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG) i sicrhau arian mewn cysylltiad â strategaeth ddatblygu leol Llywodraeth Cymru, ar gyfer astudiaeth dichonoldeb i'r gwaith carthu arfaethedig yn yr harbwr. Adroddwyd bod YGC yn llunio pecyn tendr ar gyfer y gwaith - **diweddariad ar y sefyllfa Hydref 2021**. Diolchwyd i FLAG am yr arian i gynnal arolwg ac astudiaeth dichonoldeb.
- Bod safleoedd parcio ar Ffordd y Compownd wedi cael eu marcio i helpu Gweithwyr Masnachol gyda cwch yn yr harbwr i ddal ati gyda'u gweithgareddau mewn amgylchedd harbwr prysur, yn arbennig yn ystod yr haf. Yn anffodus, ers gosod bolardiau i atal parcio di-drefn, difrodwyd sawl bolard gan unigolion heb awdurdod. Ni all y Gwasanaeth barhau i ysgwyddo cost atgyweirio difrod o'r fath. Mae'r mater bellach yn destun adolygiad. Y bwriad yw ystyried cynlluniau amgen i'r dyfodol - nid oes bwriad rhoi gorchymyn parcio ar yr ardal - blaenoriaeth yn cael ei roi i safleoedd proffil uwch yn y Sir
- Bod hi'n hanfodol, wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad, i gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Coronafeirws sy'n bodoli ar y pryd a'r cyngor a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru gan gysylltu gydag Awdurdod yr Harbwr neu Grŵp Digwyddiadau Gwynedd. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried a chamau ymgysylltu gyda'r gymuned leol ynglŷn â chynnal y digwyddiadau. Anogwyd yr Aelodau i fod yn realistig yn yr hyn y gellid ei wneud o ystyried y sefyllfa. Pwysleisiwyd yr angen i ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhannu gwybodaeth yn amserol.

*11:00am – munud i feddwl, i oedi a myfyrio ar brofiad y flwyddyn ddiwethaf. Nodi blwyddyn ers dechrau'r cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf mewn ymateb i bandemig Covid-19.*

**Cynlluniau Amddiffynfeydd Môr** - diweddariad Cynllun Prom y Gogledd a Chynllun Gerddi'r Draphont gan Rob Williams ac Osian Richards YGC.

Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal 6ed o Ionawr 2021 - y cofnodion wedi eu rhannu gyda'r Aelodau.

Prif bwyntiau yn codi o'r drafodaeth:

Cynllun Prom y Gogledd:

- Gwaith geoffisegol wedi ei wneud i ymchwilio i gyflwr strwythur y gwagle
- Dylunio manwl i fodelu'r traeth
- Achos busnes wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Ni fydd twyni tywod yn cael eu creu gan nad yw'n caniatáu amser digonol i'r gwair maram gydiad. Angen ystyried opsiynau posib sydd yn cynnwys sefydlogi'r gwair sydd eisoes yn bodoli. Trafodaethau pellach i'w cynnal.

Cynllun Gerddi Traphont:

- Gwaith diweddaru achos busnes yn cael ei gwblhau
- Arolwg o wal y cei yn ei gyfanrwydd wedi ei gwblhau - adroddiad o'r darganfyddiadau heb ei derbyn
- Cam nesaf - dylunio manwl ar gyfer y gwath – arian cyfatebol ar gael ar gyfer y gwaith drwy gynllun asedau'r Cyngor
- Gwaith gwella draenio i'w gwblhau yn y lôn –
- Angen gwella safon amddiffyn llifogydd o'r môr. Y bwriad yw ymgynghori gyda'r cyhoedd - yr ardal yn un sensitif - angen ystyried edrychiad gorffenedig ynghyd a lefel briodol o amddiffyn.
- Cynlluniau mynediad i'w hymgorffori gyda chynlluniau amddiffynfeydd - syniadau i'w cyfeirio ymlaen i'r Adran Economi
- Wal y Cei - yn dilyn arolwg cychwynnol, y wal wedi sefydlogi ond angen arolwg pellach cyn agor i'r cyhoedd. Trafodaethau pellach i'w cynnal gyda YGC - os bydd angen 'pwysau ychwanegol,' gellid ymgorffori hyn i'r Cynllun Gerddi Traphont.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

**8. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd bod y cyfarfod nesaf wedi ei raglennu ar gyfer 19 Hydref 2021. Gwnaed cais ar ran yr Aelod Cabinet i ystyried dyddiad ac amser arall gan fod boreau dydd Mawrth yn gwrthdaro gyda chyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth ac felly'n atal yr Aelod Cabinet rhag mynychu. Gwnaed cais i'r Aelodau ystyried diwrnod ac amser arall cyfleus.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:30pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Àbermaw** |
| **DYDDIAD** | **19 Hydref 2021** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod**

2.1 Bu 54 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Abermaw yn 2021. Mae hyn yn cymharu â 31 o gychod ar angorfeydd yn 2020.

2.2 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwsmeriaid yn y flwyddyn ddiwethaf ym mhob un o'r harbyrau. Mae'r cynnydd yn nifer y cychod ar angorfeydd yn yr harbyrau yn adlewyrchu llacio graddol y cyfyngiadau cyfnod clo Coronafeirws yng Nghymru.

2.3 Y tymor hwn, rhoddodd y Gwasanaeth gyfle i aelodau'r cyhoedd gofrestru cychod pŵer ar-lein drwy wefan Cyngor Gwynedd.

2.4 Cafodd 748 o Fadau Dŵr Personol (beiciau dŵr) eu cofrestru ar-lein.

2.5 Cafodd 516 o Gychod Pŵer eu cofrestru ar-lein.

2.6 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 1131 o Fadau Dŵr Personol a Chychod Pŵer ar bapur gan bobl a ymwelodd â sawl swyddfa forwrol ar draws Gwynedd, gan roi cyfanswm o 2395 o nifer y cychod a gofrestrwyd.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

**4. Materion Staffio.**

Nid yw lefelau staffio harbwr Abermaw wedi newid ers yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Mae'r harbwrfeistr cynorthwyol wrthi'n gwneud y mwyafrif o'r swyddogaethau sydd eu hangen i sicrhau gweithrediad diogel yn yr harbwr. Rydym yn rhagweld y gellir hysbysebu swydd 'wag' yr Harbwrfeistr yn gynnar yn 2022. Mae'r harbwrfeistr cynorthwyol yn cael ei gefnogi'n briodol gan y cymhorthydd harbwr sy'n gwneud yr holl swyddogaethau ar hyn o bryd, er mai ar sail dros dro y mae'n gweithio. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Abermaw pan fo angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.**

O ran ffïoedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2022/23, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

**6. Astudiaeth Dichonolrwydd Carthu**

Ar ôl cael bid ariannol llwyddiannus a chyda chefnogaeth hael FLAG, mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaeth dichonolrwydd carthu ar gyfer harbwr Abermaw. Mae ardal yr astudiaeth yn canolbwyntio ar yr ardal sy'n union gyferbyn ag ymyl y cei, o fewn yr ardal lle ceir angorfeydd sy'n symud eisoes.

Hyd yma, mae'r tasgau a ganlyn wedi'u cwblhau.

- Arolwg Bathymetrig wedi'i gwblhau.
- Nodwyd y bydd angen carthu cyfaint o 70,000m³ os dymunir cael dyfnder o -0.5m islaw Datwm Siart.
- Mae'r cynllun samplo deunydd wedi'i gytuno a'i gymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

- Mae samplau o'r gwaddodion wedi'u cymryd ac maent wedi cael eu danfon i'r labordy profi. Rydym yn disgwyl am ganlyniadau'r profion gwaddodion.
- Mae'r gwerthusiad opsiynau wedi mynd rhagddo o ran gwaredu'r deunydd a garthir. Bydd canlyniadau'r samplau gwaddodion yn pennu pa opsiynau sydd ar gael.
- Disgwylir i'r adroddiad drafft cyntaf gael ei gwblhau ym mis Tachwedd.

**7. Cofrestru Llestrau**

Yn ystod rhan gyntaf yr haf, daeth yn bosib i berchnogion Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol gofrestru eu llestr a phrynu hawlen lansio flynyddol ar-lein.

Mae'n braf cael adrodd bod y system wedi gweithio'n dda iawn ac wedi lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol, yn enwedig ar draethau.

Yn 2022, ni fyddwn yn derbyn ceisiadau drwy'r post ac ni fyddwn yn prosesu ceisiadau a wneir mewn person mewn harbyrau, marinas nac ar draethau. Bydd yr holl geisiadau yn cael eu gwneud ar-lein.

**8. Yr Adran Porthladdoedd - Ymgynghoriad**

**Papur Ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth**: Dymuna'r Gwasanaeth ddod a phapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth, "*Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft"* i sylw aelodau'r Pwyllgor.

Yn ei hanfod, mae'r papur ymgynghori yn cynnig newid deddfwriaeth i ddod â badau dŵr hamdden a phersonol i mewn i sgôp Deddf Llongau Masnach 1995 er mwyn sicrhau ymarfer diogel. Mae'r ddogfen ar gael i'w gweld ar wefan llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy ddilyn y ddolen isod:
www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft

Dylid anfon sylwadau ar y cynnig i: maritimesafety@dft.gov.uk.

Mae'r ymgynghoriad yn cau am 11:45pm ar 1 Tachwedd 2021.

**9. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd harbwrfeistr cynorthwyol Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Àbermaw** |
| **DYDDIAD** | **19 Hydref 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad Harbwr** |
| **AWDUR** | **Harbwrfeistr Cynorthwyol** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr wedi parhau'n gyson dros yr haf, ac felly ni fu angen symud unrhyw rai o fwiau'r sianel.

1.2 Bydd dynesfa'r sianel i'r harbwr yn parhau i gael ei fonitro gan staff yr harbwr dros y cyfnod i ddod, a lle bydd angen, bydd newidiadau yn cael eu gwneud i leoliadau'r marciau mordwyo, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Dŷ'r Drindod, a hynny gan ddefnyddio contractwr lleol

1.3 Bydd y Gwasanaeth yn derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Abermaw a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod ar 28 Medi 2021. Bydd adroddiad ar eu canfyddiadau yn dilyn. Rhennir canlyniad yr adroddiad â'r Pwyllgor Harbwr ar ôl ei dderbyn.

1.4 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol sy'n ymwneud â'r marciau mordwyo yn y sianel.

1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i gysylltu gyda swyddfa'r harbwrfeistr cyn gadael neu ddynesu at yr harbwr i gael y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf a gwybodaeth am y tywydd.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 **Tymor yr Haf:** Mae'r harbwr wedi gweld nifer sylweddol o ymwelwyr â'r ardal eleni, a achoswyd gan effaith cyfyngiadau coronafeirws ar deithio tramor. Mae staff yr harbwr wedi bod ar wyliadwriaeth gyson ar y lan ac ar y dŵr, i sicrhau diogelwch y bobl sy'n mwynhau'r amgylchedd, gyda phatrolio rheolaidd yn cael eu gwneud yn sianel Abermaw.

2.1.1 Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr i'r ardal yn parchu amgylchedd yr harbwr, roedd cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau o staff yn dioddef camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr ac anwybodaeth ambell unigolyn o epidemig presennol Coronafeirws hefyd wedi bod yn bryder.

2.1.2 Yn ystod tymor yr haf, ymwelodd 47 o gychod â'r harbwr gan aros yno am o leiaf un noson. Cafodd y ffigwr hwn ei hybu gan angorfa newydd 'dŵr dwfn' i ymwelwyr, a gafodd ei gosod yn yr harbwr gan gontractwr angorfeydd lleol ar ddechrau'r tymor, ac fe'i lleolwyd ger pont yr harbwr.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Gwnaed gwaith archwilio a chynnal a chadw i'r angorfeydd *'small trot'* yn yr harbwr ar ddechrau'r tymor gan staff yr harbwr, gydag unrhyw gyfarpar oedd wedi gwisgo yn cael ei amnewid o stoc presennol.

3.2 Mae'r angorfeydd *'large trot'* yn yr harbwr yn aros i gael eu hamnewid gan gontractwr angorfeydd lleol. Mae cyfarpar angorfeydd, gan gynnwys angorau, cadwyni a siaclau, eisoes wedi'u prynu ar gyfer y gwaith, ar gost o £7082.04 i'r gwasanaeth.

3.3 Gwnaed gwaith trwsio ar ysgolion yr harbwr sy'n sownd i wal y cei ar ôl iddynt gael eu difrodi gan gychod oedd wedi cael eu hangori wrth eu hymyl. Mae gwaith pellach i'w wneud, gan gynnwys amnewid y ffenders pren cyn cyfnod y gaeaf.

3.4 Ar ymyl y cei, mae staff yr harbwr wedi amnewid rheiliau sydd wedi'u difrodi ac wedi gosod 'dolennau angorfeydd' ar risiau'r fferi ac ar hyd wal y cei, er mwyn cynorthwyo ag angori cychod.

3.5 Mae ScottishPower wedi gosod arwyddion newydd i rybuddio defnyddwyr yr harbwr o bresenoldeb a pherygl ceblau pŵer tanddwr sy'n ymestyn ar draws yr aber.

3.6 Bydd yr Harbwrfeistr Cynorthwyol yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw fydd yn cael ei gwneud yn harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod o fis Hydref 2021 i fis Chwefror 2022. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Gwaith Adnewyddu Pont Rheilffordd Abermaw;** Yn ystod y cyfarfod diwethaf, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ac eglurhad gan Mr Steve Richardson, rheolwr gwaith peirianneg y bont ar ran cwmni Griffiths Civil Engineering & Construction, ar y rhaglen waith sydd i'w gwneud ar y bont. Mae'r gwaith ar y bont yn parhau, gyda'r bont ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd tra bo rhan fawr o'r gwaith adfer yn cael ei wneud.

4.2 **Compownd yr Harbwr:** Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi ymdrechion deiliaid y plotiau i dacluso eu plotiau unigol yn y compownd, ar y cyd â staff yr harbwr. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud fel bod modd ail-orfodi cyfyngiadau plotiau unigol.

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn ystyried y posibilrwydd o adfer y rhwystr traffig ar waelod ffordd y compownd gydag un awtomatig, fel nad oes defnydd anawdurdodedig yn cael ei wneud o'r mannau parcio sydd ar gael yno. Mae'r rhwystr presennol yn dechrau dirywio ac yn aml mae'n cael ei adael 'yn agored' gan staff yr harbwr.

**H5 Digwyddiadau**

5.1 Er y bu'n rhaid canslo nifer o ddigwyddiadau eleni yn sgil parhad yr epidemig Coronafeirws, cynhaliwyd Ras y Tri Chopa, ynghyd â rasys hwylio dingis dan arweiniad Clwb Hwylio Meirionnydd.

5.2 Mae'r digwyddiadau sydd eto i ddod eleni yn cynnwys digwyddiad Motor Cross ar 16/17 Hydref ar draeth Abermaw a digwyddiad Guto Ffowc hefyd i'w gynnal ar y traeth ar 6 Tachwedd.

## ***Uned Morwrol / Maritime Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa a<br>Ffos / Ar<br>Lein | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total<br>Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 46 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 179 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 152 | 835 |
| 2021 | 48 Aberdyfi | 64 | 2 | 168 Hafan | 26 | 105 Abersoch<br>39 Machroes<br>66 Nefyn | 790 | 1308 |

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli/<br>Hafan | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office /<br>Ffos Ar<br>Lein | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 | 35 | 49 Total Boat<br>Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 | 45 | 55 Total Boat<br>Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 | 52 | 73 Total Boat<br>Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 | 55 | 43 Total Boat<br>Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 70 | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 845 |
| 2021 | 16 Aberdyfi | 65 | -- | 142 Hafan | 217 | 78 Abersoch<br>7 Machroes<br>11 Nefyn | 766 | 1302 |




| | | |
|---|---|---|
| **Fairway buoy** (safe water) | **52°42.796'N** | **004°04.906'W** |
| **Num 1 Starboard Bar buoy** | **52°42.717'N** | **004°04.261'W** |
| **Num 2 Port Bar buoy** | **52°42.776'N** | **004°04.208'W** |
| **Num 4 Port Bar buoy** | **52°42.738'N** | **004°04.009'W** |
| **Num 6 Port Bar buoy** | **52°42.771'N** | **004°03.779'W** |
| **South cardinal Perch** | **52°42.822'N** | **004°03.720'W** |
| **Num 3 Straboard buoy** | **52°43.013'N** | **004°03.082'W** |


This illustration is intended as a guide only. All positions are given as approximate. The aids to navigation may be moved without prior notice. Mariners are advised to contact the harbourmasters office for the latest navigational information. Tel: 01341 280 671
E mail:BergitteLouiseEvans@gwynedd.llyw.cymru

# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2021
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2021


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **54** | **376.86** | **6.98** | **49.61** | **0.92** |
| **Aberdyfi** | **76** | **487.32** | **6.41** | **48.82** | **0.64** |
| **Porthmadog** | **112** | **902.60** | **8.06** | **111.13** | **1.01** |
| **Pwllheli** | **50** | **361** | **7.2** | **42.0** | **0.84** |
| | | | | | |
| **Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours** | **292** | **2127.78** | **28.65** | **251.86** | **3.41** |
| **Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours** | **73** | **531.95** | **7.16** | **62.89** | **0.85** |

# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.


### Nifer o Gychod / Number of Boats





### Cyfanswm Hyd / Total LOA





### Cyfartaledd Hyd / Average LOA




### Cyfanswm Dyfnder / Total Draught




### Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught




# HARBWR ABERMAW HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics

| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod** / Number of Boats | 88 | 86 | 69 | 70 | 31 | 54 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 627.64 | 602.63 | 493.36 | 512.00 | 216.31 | 376.86 |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 7.13 | 7.01 | 7.15 | 7.31 | 6.98 | 6.98 |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 77.96 | 74.56 | 61.21 | 65.13 | 27.71 | 49.61 |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.86 | 0.87 | 0.89 | 0.93 | 0.89 | 0.92 |


**Nifer o Gychod / Number of Boats**





**Cyfanswm Hydoedd / Total Length**





**Cyfartaledd Hyd / Average Length**




**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**




**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**



# *Uned Morwrol*

**Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List**

| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 20 | 120 | 47 | 44 | 3 | 93.6% Pwer<br>6.4% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 21** | **120** | **76** | **66** | **10** | **86.8% Pwer<br>13.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 20 | 140 | 31 | 21 | 10 | 67.7% Pwer<br>32.3% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 21** | **140** | **54** | **40** | **14** | **74.1% Pwer<br>25.9% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer<br>67.7% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 20 | 238 | 64 | 22 | 42 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 21** | **238** | **112** | **30** | **82** | **26.8% Pwer<br>73.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 20 | 81 | 50 | 23 | 27 | 46% Pwer<br>54% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 21** | **81** | **50** | **26** | **24** | **52% Pwer<br>48% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer<br>55.5% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 20 | 409 | 288 | 140 | 148 | 48.6% Pwer<br>51.4% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 21** | **409** | **378** | **192** | **186** | **50.8% Pwer<br>49.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 20 | 100 | 90 | 26 | 64 | 28.9% Pwer<br>71.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 21** | **100** | **89** | **26** | **63** | **29.2% Pwer<br>70.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| Cyfanswm 20 | 1088 | 570 | 276 | 294 | 48.4% Pwer<br>51.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 21** | **1088** | **759** | **380** | **379** | **50.1% Pwer<br>49.9% Hwylio** |

## ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr<br>Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd<br>Available no of moorings*** | ***Preswylydd<br>Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd<br>Residing in Gwynedd*** | ***Eraill***<br>*Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| *Aberdyfi 2020* | *120* | *47 (39.2%)* | *23 (48.9%)* | *24 (51.1%)* |
| ***Aberdyfi 2021*** | ***120*** | ***76 (63.3%)*** | ***34 (44.7%)*** | ***42 (55.3%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| *Abermaw 2020* | *140* | *31 (22.1%)* | *24 (77.4%)* | *7 (22.6%)* |
| ***Abermaw 2021*** | ***140*** | ***54 (38.6%)*** | ***36 (66.7%)*** | ***18 (33.3%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| *Porthmadog 2020* | *238* | *64 (26.9%)* | *30 (46.9%)* | *34 (53.1%)* |
| ***Porthmadog 2021*** | ***238*** | ***112 (47.1%)*** | ***42 (37.5%)*** | ***70 (62.5%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| *Pwllheli 2020* | *81* | *50 (61.7%)* | *36 (72%)* | *14 (28%)* |
| ***Pwllheli 2021*** | ***81*** | ***50 (61.7%)*** | ***36 (72%)*** | ***14 (28%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| *Hafan 2020* | *409* | *288 (70.4%)* | *40 (13.9%)* | *248 (86.1%)* |
| ***Hafan 2021*** | ***409*** | ***378 (92.4%)*** | ***77 (20.4%)*** | ***301 (79.6%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| *Doc Fictoria 2020* | *100* | *90 (90%)* | *22 (24.4%)* | *68 (75.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2021*** | ***100*** | ***89 (89%)*** | ***21 (23.6%)*** | ***68 (76.4%)*** |
| | | | | |